# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-05-07)

**Dyddiad: 11 Hydref 2007**
**Amser: 9.30 - 12.30**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Alun Ffred Jones, Arfon
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Karen Sinclair, De Clwyd
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Gordon James, Cyfarwyddwr, Cyfeillion y Ddaear
Peter Jones, RSPB Cymru ar ran Cyswllt Amgylchedd Cymru
Tim Helweg-Larsen, Zero Carbon Britain

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Yr oedd Lesley Griffiths wedi anfon ymddiheuriadau am ei habsenoldeb.

### Eitem 2: Ymchwiliad i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru
### Papur: SC(3)-05-07 (p.1)

2.1 Croesawodd y cadeirydd Gordon James i'r cyfarfod a gofynnwyd iddo drafod cyflwyniad ysgrifenedig Cyfeillion y Ddaear Cymru ar adran breswyl ymchwiliad y pwyllgor i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru.

2.2 Cytunodd y tyst i ddarparu cysylltiad rhyngrwyd at wybodaeth ar union nifer yr adeiladau newydd sydd wedi'u harchwilio, ynghyd ag eglurhad o brofiad yr Alban ynglŷn â gorsafoedd pŵer sy'n defnyddio gwres a phŵer cyfunedig. Gofynnwyd i'r tyst hefyd i ddarparu gwybodaeth ar ddefnyddio ad-daliadau treth gyngor ar gyfer cartrefi sy'n defnyddio mesurau cost-effeithiol i ddefnyddio ynni'n effeithlon.

### Papur: SC(3)-05-07 (p.2)

2.3 Croesawodd y cadeirydd Peter Jones i'r cyfarfod a gofynnwyd iddo drafod cyflwyniad Cyswllt Amgylchedd Cymru ar adran breswyl ymchwiliad y pwyllgor i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru.

### Eitem 3: Ystyried deiseb PO61(GR) ar Nodyn Cyngor Technegol Mwynau: Glo
### Papur: SC(3)-05-07 (p.4)

3.3 Cyflwynodd y cadeirydd bapur ar ddeiseb PO61(GR) ar y nodyn cyngor technegol mwynau, M TAN Glo, a gofynnodd am sylwadau gan Aelodau. Cytunodd y pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am y newyddion diweddaraf o ran dyddiad cyhoeddi'r M TAN Glo ac i geisio eglurhad ynglŷn â'r amserlen ac a fyddai'n caniatáu i'r pwyllgor gyfrannu at gynnwys yr M TAN terfynol os bydd angen.

### Eitem 4: Ymchwiliad i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru
### Papur: SC(3)-05-07 (p.3)

4.1 Croesawodd y cadeirydd Tim Helweg-Larsen i'r cyfarfod a rhoddodd ymddiheuriadau ar ran Peter Harper a oedd wedi cael anawsterau teithio.

4.2 Cyflwynodd Tim Helweg-Larsen gyflwyniad ysgrifenedig y Ganolfan Dechnoleg Amgen ar adran breswyl ymchwiliad y pwyllgor i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru.

4.3 Cytunodd y pwyllgor i ysgrifennu at Peter Harper i ofyn am gyflwyniad ysgrifenedig mewn perthynas â'r cwestiynau a ofynnwyd gan

y pwyllgor yn y cyfarfod.